## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 27 Ionawr 2004

## Cynigion a gyflwynwyd ar 20 Ionawr 2004

### NDM1784 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Lywodraeth y DU i dynnu'r Mesur Addysg Uwch yn ôl ac ailystyried y ffordd y maent yn mynd ati i ddarparu cyllid ar gyfer Addysg Uwch.

*Gellir gweld y Mesur Addysg Uwch a gymeradwywyd yn y Darlleniad Cyntaf trwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol: http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200304/cmbills/035/2004035.htm*

### NDM1785 Karen Sinclair (De Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu:

1. Bod Pwyllgor, i'w alw yn Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2004-02 yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 35 y Cynulliad, er mwyn cyflawni ei swyddogaethau fel a ganlyn: o ran y mater cyntaf a'r ail fater a enwir yn yr atodlen i'r cynnig hwn, o dan adran 77 (1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac yng nghyd-destun y materion hynny, gyda swyddogaethau'r Cynulliad o dan adran 2 ac atodlen 1 o Ddeddf Henebion ac Archaeoleg 1979; ac o ran y trydydd a'r pedwerydd mater a enwir yn yr atodlen, o dan adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; a bod swyddogaethau'r Cynulliad o ran y materion hynny yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw;

2. Mai dyma fydd aelodau’r Pwyllgor hwnnw:

Carwyn Jones AC (Cadeirydd)
Carl Sargeant AC
Mick Bates AC
Glyn Davies AC

3. Y bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 35.16 neu ar 27 Chwefror 2004, pa un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, y bydd y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â'r cyfryw faterion, yn cael eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru.

### Atodlen

1. Cais cynllunio a chais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig gan Gyngor Sir Caerdydd, sydd wedi eu galw i mewn, i ddatblygu canolfan ymwelwyr newydd arfaethedig yng Nghastell Caerdydd.

2. Cais cynllunio a chais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig gan Gyngor Sir Caerdydd, sydd wedi eu galw i mewn, i ddatblygu bwyty a siop newydd arfaethedig yng Nghastell Caerdydd.

3. Datblygiad y Goron: datblygiad arfaethedig gan y Gwasanaeth Llys i ddefnyddio Columbus House, Langstone, Casnewydd, Gwent, yn ganolfan gwrandawiadau ar gyfer tribiwnlysoedd yr Awdurdod Apeliadau Mewnfudo a thribiwnlysoedd apeliadau pensiynau.

4. Datblygiad y Goron: datblygiad arfaethedig gan yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau i greu gorsaf gynorthwyol ar gyfer Gwylwyr y Glannau (a fydd yn cynnwys swyddfa rheolwr y sector) yn Llwyn Passat, Marina Penarth, Penarth.

**NDM1786 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn croesawu Rhaglen Band Eang Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2002.

2. Yn cytuno bod gan y rhaglen y potensial i wella economi Cymru, yn ogystal â'r cyfleoedd sydd ar gael i unigolion, yn ddramatig.

3. Yn cefnogi amcan y Rhaglen, sef galluogi rhagor o bobl i gael gafael ar Fand Eang ledled Cymru.

*Bydd y cysylltiadau isod yn mynd â chi i'r dudalen "Beth yw Rhaglen Band Eang Cymru" ar y Rhyngrwyd:*

***Saesneg***
*http://www.cymruarlein.wales.gov.uk/broadband.htm*

***Cymraeg***
*http://www.cymruarlein.cymru.gov.uk/broadband/whatisbbw.htm*

**NDM1787 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraff 1(1) a (4) o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, yn penodi Michael German AC yn aelod o'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol yn lle Kirsty Williams AC.

**NDM1788 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella fel rhaglen arloesol ac effeithiol a fydd yn sicrhau gwelliannau yn y gwasanaethau cyhoeddus hynny y mae Awdurdodau Lleol yn eu darparu yng Nghymru;

2. Yn nodi hynt Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, fel sydd wedi'i gofnodi yn adroddiad y Comisiwn Archwilio: "Wales Programme for Improvement 2003-2004: (Draft) Summary Report of the Director General of the Audit Commission in Wales."

3. Yn cymeradwyo'n gryf y dull partneriaeth y mae Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn ei fabwysiadu, fel a ddengys yn achos y Bwrdd Gwella, i sicrhau gwelliant parhaus a rheolaidd yn y modd y mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu.

*Bydd y cyswllt isod yn mynd â chi i Raglen Cymru ar gyfer Gwella:*
*http://www.wales.gov.uk/subilocalgov/content/consultation/improvedguidance-e.pdf*

*Anfonwyd copi o'r ddogfen "Wales Programme for Improvement 2003/04: Draft Summary Report of the Director-General of the Audit Commission in Wales" drwy e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Ionawr 2004.*

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 21 Ionawr 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1784**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu'r geiriau 'cyllid ar gyfer'.

**NDM1788**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu ar ddiwedd Pwynt 2:*

"yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i gyhoeddi asesiad y Comisiwn Archwilio o daith pob cyngor 'tuag at welliant' cyn etholiadau llywodraeth leol ym Mehefin 2004"

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 22 Ionawr 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1784**

**1. Karen Sinclair (De Clwyd)**

Dileu "Mae’r" ac yn ei le rhoi "Mae", yna dileu popeth ar ôl " Cynulliad Cenedlaethol" ac yn ei le rhoi "Cymru yn croesawu datganoli, i Gymru, drefniadau cymorth i fyfyrwyr, fel yr amlinellwyd yn y Mesur Addysg Uwch."

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

', a chyflwyno system cyllido addysg uwch na fydd yn rhwystro myfyrwyr am resymau ariannol'

**NDM1786**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder na all nifer o ardaloedd gwledig, yn arbennig, gael gafael ar fand eang ar hyn o bryd ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau y bydd band eang ar gael ym mhob rhan o Gymru.

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod mai £21.75 miliwn a wariwyd hyd yma o’r £115 miliwn a oedd ar gael ar gyfer Rhaglen Band Eang Cymru, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2002.

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno y dylai'r ddarpariaeth band eang fod o ansawdd digonol i gynnig y cyfleoedd gorau posibl ar gyfer busnesau.

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddiweddaru'r strategaeth "Cymru Ar-lein - Online for a Better Wales".

*Bydd y cyswllt isod yn mynd â chi i strategaeth "Cymru Ar-lein - Online for a Better Wales": [http://www.cymruarlein.wales.gov.uk/ictimportant/icthome.htm](http://www.cymruarlein.wales.gov.uk/ictimportant/icthome.htm)*

**5. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le.

**6. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd Pwynt 2:

ond yn gresynu nad oes rhagor o gynnydd wedi'i wneud yn y cyswllt hwn.

**7. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd Pwynt 3:

ac yn annog mentrau lleol i wneud hynny cyn gynted â phosibl.

**8. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y nifer isel sydd wedi dewis derbyn Band Eang yng Nghymru, o gymharu â rhanbarthau eraill o'r DU ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i godi ymwybyddiaeth o'r potensial economaidd sy'n gysylltiedig â gwella cysylltiadau TGCh.

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le.

**10. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd Pwynt 2:

ond yn gresynu at arafwch Llywodraeth Lafur y Cynulliad i gysylltu Cymru gyfan â Band Eang.

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn llongyfarch Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a reolir gan Blaid Cymru, am fod ar flaen y gad ymhlith awdurdodau lleol Cymru o ran galluogi ei holl gyfnewidfeydd ffôn i dderbyn

band eang.

**NDM1788**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r angen am weithdrefnau monitro mwy effeithiol.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod angen i gymhellion, yn seiliedig ar gyflawni, fod yn rhan annatod o'r rhaglen.

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i weithredu'r holl argymhellion sy'n ymwneud â hi yn adroddiad y Comisiwn Archwilio, "Wales Programme for Improvement 2003-2004: (Draft) Summary Report of the Director General of the Audit Commission in Wales"; ac i annog awdurdodau lleol a'r Cyngor Partneriaeth i weithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â hwy ac adrodd i'r Cynulliad ar eu rhaglenni gweithredu.